TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Cynllun Cydymffurfio – Caethwasiaeth Fodern

Er mwyn rheoli risgiau caethwasiaeth fodern yn effeithiol yn ein gweithrediadau ac yn y gadwyn gyflenwi, byddwn yn mabwysiadu dull rhagweithiol a strwythuredig drwy'r camau **Adnabod**, **Atal**, **Lliniaru** ac **Unioni** a fydd yn cael eu hadlewyrchu yn nhryloywder ein Datganiad Caethwasiaeth Fodern.

## Our 16-step plan to tackle Modern Slavery

1. Tryloywder: Llunio Datganiad Caethwasiaeth Fodern cynhwysfawr sy'n adlewyrchu'r camau sydd wedi cael eu cymryd, ac yn ymgorffori'r camau sydd i'w cymryd. **Llywodraethu.**
2. Penodi Noddwr y Bwrdd Gweithredol i sicrhau arweinyddiaeth ac atebolrwydd er mwyn mynd i'r afael â Chaethwasiaeth Fodern ar draws ein busnes. **Llywodraethu.**
3. Penodi Swyddog Gwrth-gaethwasiaeth i gydlynu ymdrechion y busnes i atal, canfod ac ymateb i risgiau caethwasiaeth fodern yn ein gweithrediadau a'n cadwyn gyflenwi **Llywodraethu.**
4. Sefydlu Gweithgor Cymdeithasol Gyfrifol i weithredu a gwthio ein diwydrwydd dyladwy drwy becynnau cymorth Busnes fel Arfer, gan sicrhau bod prosesau mesur ac adrodd ar waith i alluogi'r busnes i gymryd camau. **Llywodraethu.**
5. Datblygu polisi TrC ar gyfer Busnes Cymdeithasol Gyfrifol i gwmpasu ein rhwymedigaethau cyfreithiol moesegol a'n blaenoriaethau strategol o dan MSA, SPPPA, PA, WFGA a Chyflogaeth Foesegol yn y Gadwyn Gyflenwi. **Llywodraethu.**
6. Datblygu map rhanddeiliaid i gynnwys sefydliadau cymorth allanol ac annog cyfleoedd cydweithredol i ymgysylltu, a fydd yn cryfhau ein cynlluniau drwy rannu gwybodaeth a dealltwriaeth, a meddwl mewn ffordd gydgysylltiedig. **Adnabod.**
7. Datblygu Cod Ymddygiad i Gyflenwyr i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'n rhwymedigaethau cyfreithiol a'n blaenoriaethau strategol ac yn cydymffurfio â nhw. Bydd hyn yn cynnwys cyfeirio pobl at ein partneriaid am gymorth ac adnoddau. **Atal.**
8. Mapio ac asesu risg: Adnabod cyflenwyr, diwydiannau a rhanbarthau risg uchel yn ein gweithrediadau, a blaenoriaethu i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol. **Adnabod.**
9. Datblygu a gwreiddio pecyn cymorth ar Risg Fasnachol i wneud yn siŵr bod lefel briodol o sicrwydd fel rhan o'n 'busnes fel arfer', gyda phrotocol fetio gwell drwy gydol oes y contract. **Atal.**
10. Datblygu cyfres o fesurau diogelu cytundebol sy'n cyd-fynd â'r Pecyn Cymorth ar Risg Fasnachol, a chyhoeddi telerau ac amodau safonol. **Atal.**
11. Datblygu protocol a chynllun archwilio ar gyfer cyflenwyr a/neu gontractau risg uchel, a'u gwreiddio mewn rhwymedigaethau cytundebol. Cynnal archwiliadau ac ymweliadau safle yn unol â'r protocol hwn a/neu sbardunau a allai achosi niwed posibl. **Lliniaru**.
12. Hyfforddi a Meithrin Gallu: Darparu gwahanol lefelau o hyfforddiant pwrpasol i wahanol grwpiau. Hyfforddiant uwch i dimau masnachol a rhanddeiliaid allweddol SWRG; hyfforddiant cyffredinol ar gyfer busnes TrC; cyfres o ddeunyddiau hyfforddi ar gyfer y gadwyn gyflenwi, a chydweithio â chymheiriaid ar gyfleoedd hyfforddi. **Atal.**
13. Mecanweithiau Llais y Gweithiwr: Rhoi mecanweithiau cwyno ar waith i alluogi'r gweithlu a'r gadwyn gyflenwi i riportio achosion o gamfanteisio mewn modd diogel. **Adnabod.**
14. Perfformio, Mesur a Riportio: Sefydlu pecyn cymorth ar ddangosyddion perfformiad allweddol i gefnogi adolygiadau rheoli contractau a chyflenwyr; Datblygu dangosyddion perfformiad allweddol ystyrlon SRWG i ddangos yr elfennau i'w cyflawni a'r effaith. **Lliniaru**.
15. Cyfathrebu: Sicrhau deialog a chyfathrebu agored gyda'r holl randdeiliaid a'r gadwyn gyflenwi. Datblygu lefel briodol o wybodaeth drwy wefan Cadwyn Gyflenwi TrC. **Atal.**
16. Unioni: Cydweithio â Fforwm Gwrth-gaethwasiaeth Llywodraeth Cymru i sefydlu rhwydwaith o bartneriaid i gefnogi unrhyw gynlluniau unioni ar gyfer unigolion y nodwyd eu bod mewn perygl. **Unioni.**